Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bwletin i rieni 25-9-20

Yr wythnos hon rhoddwyd cyfle i ddisgyblion rhoi eu barn am ein trefniadau newydd. Byddwn ni'n ystyried y rhain dros y dyddiau nesaf i weld beth sy'n bosib. Gwerthfawrogwn eu cyfraniad aeddfed i'r drafodaeth. Trafodwyd materion yn cynnwys hyd a threfniant egwyl, cinio a chofrestru, gyda rhai hefyd yn codi syniadau am drefniadau tywydd garw. Gyda Hydref rownd y gornel, rhaid i mi eich atgoffa nid yw'r adeilad yn agor cyn 8.30yb gan mai dyma'r cyfle cyntaf mae staff ar gael i gymryd tymheredd disgyblion wrth iddynt ddod mewn. Os mae disgyblion yn cyrraedd yn hwyr, mae'n bwysig eu bod nhw'n mynd i'r dderbynfa ble bydd gwiriad tymheredd yn digwydd cyn iddynt fynd i'w hystafelloedd dosbarth.

Diolch i chi oll sy'n dilyn y canllawiau cenedlaethol pan mae disgybl yn dangos un o'r pedwar symptom COVID (peswch parhaol newydd, tymheredd uchel, colli blas, colli arogl) a chadw'r disgybl adref. Atodaf siart llif gan y sir i egluro beth i wneud. Er ein bod ni'n clywed storïau am sefyllfa ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr, mae ein sefyllfa ni yng Ngheredigion yn well. Nid oes un prawf positif wedi bod yn ein hysgolion uwchradd, ac mae lefelau presenoldeb yn uwch na llawer o lefydd. Mae presenoldeb disgyblion Penweddig wedi bod yn 91% dros yr wythnos ddiwethaf, uwch na ffigyrau Ceredigion a sylweddol uwch na'r patrwm cenedlaethol. Diolch am ymddiried yn y camau rydyn ni'n cymryd i gadw eich plant yn ddiogel ac yn dysgu.

Mae ffocws clir wedi bod ar Gymreictod dros yr wythnos ddiwethaf, a diolchaf i gymaint o ddisgyblion sydd wedi ymateb yn bositif i hwn. Mae ychydig wedi angen eu hatgoffa yn fwy aml a gwerthfawrogwn eich cydweithrediad gyda'r neges glir mae 'Cymraeg yw iaith Ysgol Penweddig'. Byddwn yn parhau gyda'r un neges yn gyson.

Mae gwisg ysgol yn rhan o'n disgwyliadau ac mae arweinwyr cynnydd a lles ac athrawon dosbarth wedi bod yn atgoffa disgyblion o'r disgwyliadau. Os mae problem yn codi byddwch yn derbyn e-bost gan yr arweinydd cynnydd a lles yn gofyn am eich cefnogaeth - deallwn nid yw'n bosib delio gyda rhai sefyllfaoedd yn syth felly os oes broblem dylid cysylltu gyda'r arweinydd cynnydd a lles er mwyn i ni weithio gyda'n gilydd i gynnal y safonau disgwyliedig.

Mae disgyblion yr ysgol nawr wedi cael eu hatgoffa o'u manylion login 'HWB'. Mae rhai cwestiynau wedi codi am y defnydd o 'ShowMyHomwork' a 'HWB' ac nid un system yn unig. Defnyddiwn 'Show MyHomework' ar draws yr ysgol i rannu gwaith a gwaith cartref, a pe byddai angen anfon dosbarth o ddisgyblion adref byddai'r gwaith yn ymddangos ar 'ShowMyHomework'. Serch hynny, mae rhai adnoddau ar gael ar 'HWB' sydd ar goll o 'ShowMyHomework'. Mae hwn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwersi byw (h.y. pawb yn y dosbarth yn ymuno ar-lein) neu sesiynau tiwtorial ar-lein (h.y. disgyblion sydd angen cymorth yn cael cyfle i godi cwestiynau). Bydd 'ShowMyHomework' yn cysylltu disgyblion i'r rhain fel bo'r holl wybodaeth mewn un man.

Rydyn ni wedi clywed yr wythnos hon am lwyddiant rhai disgyblion mewn cystadleuaeth menter y 'Tenner Challenge'. Bydd cyhoeddiad ffurfiol wythnos nesaf felly gallaf anfon fwy o fanylion pryd hynny ond mae'n brawf gweld gwaith da ein disgyblion yn arwain at lwyddiant ar lefel cenedlaethol.

Diolch i chi am eich cydweithrediad yn dros yr wythnosau diwethaf a dymunaf benwythnos da i chi oll.



Dr Rhodri Thomas

(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bulletin for parents 25-9-20

This week pupils were given the opportunity to give their views on the changes to how the school works. We appreciate their mature contribution to the debate and we will be considering these over the next few days to see what is possible. Issues including length and arrangement of breaks, lunch and registration were discussed, with some also raising ideas about severe weather arrangements. With October just around the corner, I must remind you that the building does not open before 8.30am as this is the first opportunity staff have to take the temperature of pupils as they come in. If pupils arrive late, it is important that they go to reception so the temperature check can happen before they attend any lessons.

Thank you all who follow the national guidelines when a pupil shows one of the four COVID symptoms (new persistent cough, high temperature, loss of taste, loss of smell) and keep your children at home. I attach a flow chart from the county to explain what to do. Although we hear stories about the situation of other areas of Wales and England, our position in Ceredigion is much better. There has been no positive test in our secondary schools, and attendance levels are higher than many in places. Attendance at Penweddig pupils has been 91% over the last week, higher than Ceredigion figures and well above the national pattern. Thank you for trusting in the steps we take to keep your children safe and learning.

There has been a clear focus on Welshness over the past week, and I thank so many pupils who have responded positively to this. A few have needed to be reminded more often and we appreciate your co-operation with the clear message that 'Welsh is the language of Ysgol Penweddig'. We will continue with the same message constantly.

Uniform is part of our expectations and progress and wellbeing leaders and class teachers have been reminding pupils of the expectations. If a problem arises you will receive an email from the progress and welfare leader asking for your support - we understand that some situations cannot be dealt with immediately so if there is a problem then the progress and welfare leader can be contacted in order to for us to work together to maintain the expected standards.

School pupils have now been reminded of their 'HWB' login details. Some questions have arisen about the use of both 'ShowMyHomwork' and 'HWB' and not just one system. We use 'Show MyHomework' throughout the school to share work and homework, and if a class of pupils had to be sent home the work would appear on 'ShowMyHomework'. However, there are some resources available on 'HWB' that are not present in from 'ShowMyHomework'. This includes opportunities for live lessons (ie everyone in the class joins online) or online tutorials (ie pupils who need help having the opportunity to raise questions). ShowMyHomework will link pupils to these so that all the information is in one place.

We have heard this week about the success of some pupils in the 'Tenner Challenge' youth enterprise competition. There will be a formal announcement next week so I can send more details at that time but it is always good to see the efforts of our pupils leading to success at a national level.

Thank you for your co-operation over the last few weeks and I wish you all a great weekend.



Dr Rhodri Thomas

(Headteacher)